**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 18 Mawrth 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 19 Mawrth 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 26 Mawrth 2024 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC**

**Pryniant Golygfa'r Gest, Morfa Bychan**

---

**PENDERFYNIAD**

I brynu Golygfa'r Gest, Morfa Bychan ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant am ddarpariaeth Tai gofal i blant, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 18/03/2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Pryniant Golygfa'r Gest, Morfa Bychan

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu Golygfa'r Gest, Morfa Bychan ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant am ddarpariaeth Tai gofal i blant, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi'r Adran Plant i wireddu darpariaeth Cartrefi Bychan yn unol a'r Flaenoriaeth Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r Cyngor yn awyddus i wella profiadau plant sydd yng ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir er mwyn derbyn cartref a gofal addas. Mae'r Adran Plant yn awyddus i ddatblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.

Mae Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan yn faes blaenoriaeth yn unol a Chynllun y Cyngor. Mae'r datblygiad yma yn rhan o strategaeth i ddatblygu dewis lleol o leoliadau preswyl i blant Gwynedd ac yn cyd-fynd gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat wrth ddarparu cartrefi i blant sy'n derbyn gofal.

Mae Golygfa'r Gest wedi ei adnabod fel eiddo addas ar gyfer ei drosi'n gartref bychan gan ystyried ffactorau megis ei leoliad, maint a gosodiad.
Fel trefniant interim, bydd y pryniant i gael ei ariannu o raglen gyfalaf yr Adran Plant, ac mae cadarnhad wedi'i dderbyn gan Llywodraeth Cymru y bydd costau'r pryniant i gael ei ad-dalu o gronfa Tai Gyda Gofal. Mae ymrwymiad hefyd wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru i gyfarch y costau addasu o'r gronfa hono.

Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – **Dewi Morgan –** "Rwyf yn fodlon fod ffynhonnell ariannu yn ei le ar gyfer y pryniant yma. Nid oes felly gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddog Monitro** – **Nia Grisdale** – "Mae adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i'r Cyngor brynnu eiddo er cyflawni ei swyddogaethau. Mae'r adran o fewn y ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys y gallu a rhoi caniatâd i brynnu eiddo er nad oes angen yn syth ar gyfer y diben neu ddibenion. Nid oes sylwadau ychwanegol i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Aelod/au Lleol – Cynghorydd Gwilym Jones** – "Dwi'n credu bod y tŷ yma yn siwtio anghenion y Cyngor yn hynod o dda am y rhesymau yma.

1. Mae o 'n dy reit newydd ac mewn cyflwr da.
2. Mae o wedi ei leoli ar y ffordd fawr ac mae y bysus yn pasio pob awr.
3. Mae yna iard bach yn y cefn all y plant ddefnyddio
4. Mae yna bedair llofft o faint da.

Dwi 'n dymuno pob llwyddiant i 'r fenter yma."